

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

I'w gynnal Mawrth, 08 Ebrill 2025 am 1400 o'r gloch

Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Swyddfeydd Safle Wylfa Newydd (Pŵer Niwclear Horizon), Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0AA

Bydd lluniaeth yn cael ei weini o 1330 a dewch â phrawf adnabod â'ch llun arno (pasbort cyfredol neu drwydded yrru â llun) gyda chi i ganiatáu mynediad.

- | | |
|--|---------------------------|
| 1. Croeso (5 munud) | Aled M Jones |
| 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024 (5 munud) | Pawb |
| 3. Materion a godwyd o'r Cofnodion blaenorol (5 munud) | Pawb |
| 4. Adroddiad Cadeirydd yr SSG ar Lafar (10 munud) | Aled M Jones |
| 5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa ar Lafar (30 munud) | Stuart Law |
| 6. Diweddariad Corfforaethol NRS ar Lafar (10 munud) | Bill Hamilton |
| 7. Diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar Lafar (15 munud) | Jonathan Jenkin |
| 8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar Lafar (10 munud) | Tanya MacLeod |
| 9. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd ar Lafar (10 munud) | Iwan Williams David Wilby |
| 10. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored | Pawb |
| 11. Unrhyw Fater Arall | Pawb |

Cyfarfod Nesaf – 16 Hydref 2025

Wylfa Site Stakeholder Group Meeting

To be held on Tuesday, 08 April 2025 at 1400 hrs

Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Wylfa Newydd Site Offices (Horizon Nuclear Power), Cemaes Bay, Anglesey, LL67 0AA

Refreshments will be served from 1330 and please bring with you a piece of photographic Identification (current passport or photographic drivers' licence) to allow access.

- | | |
|---|---------------------------|
| 1. Welcome (5 min) | Aled M Jones |
| 2. Apologies for Absence & Approval of Minutes of the 17 October 2024 Meeting (5 min) | All |
| 3. Matters arising from the previous Minutes (5 min) | All |
| 4. SSG Chairman's Verbal Report (10 min) | Aled M Jones |
| 5. Wylfa Site Director's Report (30 min) | Stuart Law |
| 6. NRS Corporate Verbal Update (10 min) | Bill Hamilton |
| 7. Nuclear Decommissioning Authority Verbal Update (15 min) | Jonathan Jenkin |
| 8. Office for Nuclear Regulation Verbal Update (10 min) | Tanya MacLeod |
| 9. Natural Resources Wales / Environment Agency Verbal Update (10 min) | Iwan Williams David Wilby |
| 10. Open Question and Answer Forum Session | All |
| 11. Any Other Business | All |

Next Meeting – 16 October 2025



Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 17.10.24

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiadau y mae wedi bod ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.
2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ar y safle ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.
3. Gwasanaethau Adfer Niwclear – diweddariad NRS – eitem wedi'i hanfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle oherwydd absenoldeb Bill Hamilton.
4. Adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) – Rhoddodd David Wallace, cynrychiolydd yr NDA dros Gymru a'r Alban, ddiweddariad ar lafar ar faterion yr NDA.
5. Dosbarthwyd yr adroddiad ONR gyda phhecyn papurau'r cyfarfod.
6. Cyflwynodd Iwan Williams adroddiad diweddarau ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.



Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Dydd Iau 17 Hydref 2024, Swyddfa Hyb NRS Wylfa Cemaes Ynys Môn

Yn bresennol:

Y Cyng Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd y Grŵp
Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, NRS
David Wallace	NDA
Alistair Findlay	NDA
Y Cyng Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyng Derek Owen	Cyngor Sir Ynys Môn / Cyngor Cymuned Llanbadrig
Llinos Medi	AS Ynys Môn
Y Cyng Gary Pritchard	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng G O Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Derek Owen	Cyngor Sir Ynys Môn (Is-gadeirydd)
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
TH Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
Steve Roberts	Rheolwr Safle HSE – Pŵer Niwclear Horizon
Cath Pritchard	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid y Safle, NRS
Elin P. Jones	Arweinydd Cyfathrebu a Materion Economaidd-gymdeithasol NRS
Peter Williams	Prifysgol Lerpwl

Yn bresennol:

Bethan Gwyn	Cyfieithydd - Cymen
Sydna Roberts	Cofnodydd - Cymen

Ymddiheuriadau:

Mair Jones	Arweinydd Materion Economaidd-Gymdeithasol NRS
Tanya McLeod	ONR
Y Cyng Dafydd Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian
Y Cyng Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyng Gwilym Morris	Cyngor Cymuned Rhosybol
Y Cyng Jackie Lewis	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng JH Jones	Cynghorydd Cyngor Cymuned Mechell
Y Cyng Liz Wood	Cyngor Tref Amlwch
Rhun ap Iorwerth	Aelod o'r Senedd
Iwan Jones,	Cyngor Sir Ynys Môn
Kate Simpson	Asiantaeth yr Amgylchedd
Bill Hamilton	NDA – Cynrychiolydd Cymru
Jonathan Holland	Arweinydd REPPiR, Cynllunio at Argyfwng, Cyngor GC

Cydnabu'r Cadeirydd sylwadau'r Cyng G O Jones yn cyfeirio at farwolaethau diweddar nifer o aelodau staff a oedd wedi ymddeol ac wedi wasanaethu am gyfnod hir. Gwahoddodd yr aelodau'n garedig i sefyll am funud o dawelwch i fynegi cydymdeimlad y Grŵp â'u teulu a'u ffrindiau.

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Rhoddodd groeso arbennig i'r Cyng Gary Pritchard fel Arweinydd newydd Cyngor Sir Ynys Môn. Diolchodd y Cyng Pritchard i'r Cadeirydd a Chyfarwyddwr y Safle am yr ymweliad â'r safle cyn y cyfarfod hwn. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Stuart Law ac Elin P Jones am drefnu'r ymweliad.

Dymunodd AMJ yn dda i David Wilby, cyn gynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei swydd newydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Estynnodd y Cadeirydd groeso hefyd i Llinos Medi yn ei rôl fel AS Plaid Cymru sydd newydd gael ei hethol dros Ynys Môn.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11.04.24

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11.04.24, a rannwyd cyn y cyfarfod, fel cofnod cywir. (Y Cyng GOJ/y Cyng GW)

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater

4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar y canlynol:

- Cyfarfod Cadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safle / Awdurdodau Lleol 8-9 Gorffennaf
- Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr NDA, Manceinion 17-18 Medi

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd SL adroddiad cynhwysfawr a grynhoir fel a ganlyn: -

Mae'r **Strategaeth 10 mlynedd** sy'n amlinellu'r cyfleoedd i bob safle NRS yn y dyfodol wedi cael ei lansio gyda Thrawsfynydd yn cael ei nodi fel y safle Arwain a Dysgu. Roedd y cyflwyniad yn cyfeirio at gerrig milltir penodol Wylfa ar gyfer 2024/2025.

Ystadegau Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd

Adroddodd SL ar yr ystadegau diogelwch fel a ganlyn:-

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR) 0.00
- Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 2311 diwrnod (ar 8 Hydref 2024)

Pobl

Tîm Wylfa Un

- 195 o staff safle NRS
- 76 NRS yn Hyb Wylfa.
- Mae staff wedi cwblhau'r Arolwg Staff Blynyddol yn ddiweddar

Prentisiaid

Nododd SL fod nifer y prentisiaid i'w derbyn ar gyfer mis Medi wedi'i gwblhau. Mae tri phrentis wedi sicrhau cyflogaeth barhaol ar y safle.

Mae Cynllun Gweithlu Strategol 4 blynedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Rhaglen ddatgomisiynu

- Mae angen System Droshaen Drydanol newydd ac annibynnol a fydd yn bodloni safonau modern, yn ogystal â bod yn fwy priodol ar gyfer safle gohirio. Dywedodd SL fod y dyluniad manwl wedi dechrau a bod paratodau ar y gweill i glirio hambyrddau ceblau a'r switsfwrdd diangen. Mae Cynllun Daearu newydd wedi'i gwblhau ac yn aros i adroddiad gael ei gyhoeddi.
- Cwmpas Galluogi Dosbarthu ar y Safle - Datgysylltu Parhaol: Mae'r 18 system sydd wedi'u tagio yn nhwnnel 2RG1-4 wedi cael eu datgysylltu oddi wrth eu switsfyrddau. Bydd y ceblau wedi'u tynnu o'r tair system arall erbyn diwedd mis Hydref. Tynnu Ceblau: Mae tua 14,000kg o geblau wedi cael eu tynnu a'u hailgylchu.
- Cyflenwad newydd i'r safle – Hawddfaint a gweithred gyfreithiol wedi'u cwblhau. Mae'r amserlen ar gyfer gosod pibellau newydd ar hyd y ffordd ddynesu yn cael ei datblygu.
- Gwaredu asbestos adweithyddion - mae'r prosiect hwn yn cefnogi strategaeth y cwmni i leihau'r perygl asbestos cyn mynd i'r cam gohirio.
- Ynysu Neuadd y Tyrbin – bydd y prosiect hwn yn ynysu Neuadd y Tyrbin a bydd yn cynnwys creu bwlch aer o amgylch gwasanaethau (yn fecanyddol ac yn drydanol) i mewn ac allan o'r Neuadd gan gynnwys yr Adeiladau Ategol o fewn ffin arfaethedig y PC, a hwn wedyn fydd y safle adeiladu.
- Nod tynnu sgipiau Cell Storio Sych 4, prosiect cyntaf o'i fath yn Wylfa, yw cywiro hen broblemau yn y gell storio. Mae strategaeth fasnachol wedi cael ei datblygu gan ystyried y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus newydd. Mae'r tîm nawr yn canolbwyntio ar dynnu llithren wefru cap concrit yr ochr ddwyreiniol ac mae wedi gwneud cynnydd cyson gyda gweithgareddau galluogi.

Rhaglen wastraff

- Cyfleuster prosesu HAW/LAW – ar hyn o bryd, nid oes lleoliad addas ar gyfer prosesu a phacio Gwastraff Gweithredol Uwch ac Is (HAW/LAW) ar y safle.
- Prosiect casglu gwastraff lefel ganolraddol (ILW) – cwblhawyd Cam 2 y gweithdy llunio opsiynau.
- Cyfleuster Clirio Gwastraff – adeilad y Tu Hwnt i'r Sail Dylunio yn barod i'w ddatgymalu. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, cyflwynwyd cais cynllunio llawn i'r Awdurdod Lleol.
- Cyfleuster storio DCIC – Cyfleuster Storio Dros Dro. Mae amserlen weithredu ddiwedddaredig wedi cael ei chreu, gan symleiddio'r broses fasnachol.

Meysydd i'w Gwella

- Canlyniadau Legionella Uchel – mae trefn fflysio well ar waith ac yn cael ei hadolygu'n gyson. Nododd SL nad oes unrhyw broblemau iechyd ar y safle ar hyn o bryd.
- Peiriannau'n diraddio a methiannau offer – mae dirywiad a chrydiad rhai strwythurau wedi cael eu nodi gyda chynllun blaenoriaethu trwsio neu dynnu yn ei le.

- Hysbysiad Gorfodi'r ONR – angen gwella rhai systemau.

Arfer Da

- Cefnogodd y Safle ymgyrch 30 Diwrnod Gwylt yr Ymddiriedolaeth Natur gydol mis Mehefin.
- Addasiadau Samplu Amgylcheddol – cyflawnodd y Tîm Samplu Amgylcheddol yr holl samplu ar Drwyn Wylfa ar droed yn hytrach na defnyddio cerbydau 4x4. Nod y newid hwn yw lleihau'r difrod posibl i'r ardaloedd ecolegol pwysig.
- Gwarchodaeth Radiolegol – lleihawyd amllder samplu gwymon mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r addasiad hwn yn helpu i leihau difrod a diogelu'r math prin hwn o wymon.
- Glanhau traeth – cymerodd gwirfoddolwyr o Wylfa ran mewn gwaith glanhau traeth ar draeth Aberffraw ar 3 Medi.
- Arddangosfa Ymwybyddiaeth Amgylcheddol – roedd arddangosfa y tu allan i'r ffreutur yn cynnwys deiseb yn annog cwmnïau dŵr i wella eu systemau carthffosiaeth.
- Gweithdy ôl troed carbon - roedd y sesiwn yn cynnwys elfen ryngweithiol lle roedd y cyfranogwyr yn cyfrifo eu hól troed carbon nhw eu hunain ac yn trafod y canlyniadau gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymwybyddiaeth er lleihau allyriadau carbon.
- Ffrwd Gwastraff Compostio – wedi cael ei ychwanegu at bob ystafell fwyta. Nod y cynllun hwn yw lleihau gwastraff bwyd a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan hyrwyddo arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.

STEM

Dywedodd SL fod ymweliadau ysgolion â'r Safle wedi parhau ar y cyd â safle Trawsfynydd. Mae'r Rheolwr Peirianeg a'r arweinydd STEM wedi tynnu sylw at bwysigrwydd yr ymweliadau hyn o ran hyrwyddo'r diwydiant a helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gyrfya gwybodus.

Tyddyn Môn – bu Tîm Prosiectau Gwastraff Wylfa a'r Tîm Gweithredol Safleoedd yn gwirfoddoli yn Nhyddyn Môn, elusen leol sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu. Roedd y timau, a drefnwyd drwy Raglen Wirfoddoli NRS a rhaglen Neighbourly, yn canolbwyntio ar ailorchuddio twnnel polythen ar gyfer y gaeaf a gwella gofod awyr agored synhwyrdd i gerddoriaeth.

Sioe Môn - llwyddwyd i sicrhau llain yn y sioe i hyrwyddo cyfleoedd a datblygiad gyrfaal.

Materion economaidd-gymdeithasol NRS

- Mae cyllido economaidd-gymdeithasol NRS yn dal yn £1.1m yn flynyddol ar draws y deuddeg safle, gyda £6,000 fesul safle am lefel cymydog da.
- £1.02m wedi'i ymrwymo hyd yma, ac mae £132,000 ohono'n cefnogi prosiectau yng nghymunedau Wylfa.
- £360,000 o gyllid ychwanegol gan yr NDA – £300,000 o gymorth parhaus i Brosiect Ymchwil Cymeriad Morol Morlais a £60,000 ar gyfer Tîm Carbon Isel MSParc (Mawrth-Awst 2024)

Derbyniodd **Cyngor Tref Caergybi** £1,000 i brynu gasibo cynaliadwy gyda brand NRS arno. Mae gwirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol yn croesawu twristiaid o'r llongau pleser i Borthladd Caergybi. Croesawyd 24,000 o deithwyr mordaith yn 2023, a disgwyliar mwy eleni.

Derbyniodd **Cyngor Cymuned Rhosybol** £1000 tuag at ddigwyddiad Cofio D-Day i goffáu 80 mlynedd. Fe'i cynhaliwyd ar Fynydd Parys a daeth nifer dda i'r digwyddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y **Cyng GP** a oedd unrhyw fylchau yn y gweithlu oherwydd diffyg cyllid neu ddiffyg sgiliau. Dywedodd SL fod hyn yn dibynnu ar y swydd dan sylw. Er enghraifft, mae tynnu asbestos yn gofyn am sgiliau penodol ac mae gofyn am gyllid ychwanegol. Dywedodd hefyd, fodd bynnag, y gall cydweithio â safle Trawsfynydd arwain at rannu sgiliau a chostau.

Holodd y **Cyng GW** ynghylch cyfanswm nifer y prentisiaid sydd ar y safle ar hyn o bryd. Cadarnhaodd SL fod 4 ar hyn o bryd sy'n llai na'r blynyddoedd blaenorol. Nododd hefyd, fodd bynnag, fod nifer y staff yn gostwng sy'n arwain at ostyngiad mewn rhaglenni gwaith a chefnogaeth mentoriaid.

Y Cyng DO – holodd ynghylch cyflenwad trydan wrth gefn. Nododd SL fod Ynys Môn gyfan yn cael ei chynnal gan un trawsnewidydd ar hyn o bryd a'i flaenoriaeth oedd gwneud yn siŵr bod sicrwydd mewn sefyllfaoedd lle mae cyfyngiadau ar y cyflenwad.

Diolchodd y Cadeirydd i SL am ei gyflwyniad a diolchodd hefyd am y cyllid Economaidd-Gymdeithasol i'r digwyddiad Coffa ar Fynydd Parys a oedd yn llwyddiant ysgubol. Roedd yn gobeithio y ceid cefnogaeth eto gan yr NRS i ddigwyddiad coffa arall yn y dyfodol sydd i'w drefnu yn 2025.

Diolchodd Llinos Medi AS i SL a'i staff am sicrhau'r safon uchel o ddiogelwch ar y safle i bawb.

6 Diweddariad corfforaethol NRS

Roedd Mr Bill Hamilton wedi ymddiheuro. Bydd y cyflwyniad 'Thinks Insight' yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

7. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd David Wallace i'r cyfarfod a chrynhodd yr adroddiad a rannwyd gyda phapurau'r cyfarfod fel a ganlyn:

Cyflwynodd Alistair Findlay, Pennaeth Materion Rhanbarthol yr NDA, i'r grŵp. Penodwyd Mr Findlay ar 8.9.24.

- **Etholiad Cyffredinol** – nodwyd newid yn y Llywodraeth gyda'r Blaid Lafur bellach mewn grym. Croesawodd DW hefyd yr AS newydd dros Ynys Môn, Llinos Medi.
- **Blaenoriaethau ymgysylltu ar gyfer 2024**

- Cynhaliwyd Cynhadledd Rhanddeiliaid ar 17 a 18 Medi ym Manceinion. Bydd fideos o'r digwyddiad ar gael ar wefan yr NDA. Cyhoeddwyd y byddai'r NDA yn buddsoddi £5m yn ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi tua 20 o PhDs. Mae hyn yn adeiladu ar y gwariant blynyddol presennol o £45m mewn gyrfaedd cynnar, gan gynnwys prentisiaethau, graddedigion a PhDs.
- Mae gweithgor Trawsbleidiol yn cael ei sefydlu yng Nghymru, gan weithio gyda'r NIA, ac adlewyrchu'r grŵp sydd eisoes wedi'i sefydlu yn yr Alban. Rhagwelir y bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2024 yn y Senedd.
- Adolygiad o Wariant – nid yw canlyniad yr adolygiad wedi dod i law eto.
- Mae canolfan Seiberddiogelwch wedi cael ei datblygu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o dorri diogelwch.
- Anogwyd yr aelodau i edrych ar y dolenni yn yr adroddiad i gael rhagor o fanylion am ddatblygiadau.

Sesiwn Holi ac Ateb – dim wedi'u derbyn
Diolchodd y Cadeirydd i DW am ei ddiweddariad.

8 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Roedd Tanya MacLeod wedi ymddiheuro. Cydnabu'r aelodau iddynt gael ei hadroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol ym mhecyn papurau'r cyfarfod, gan gydnabod hefyd ei gynnwys.

Sesiwn Holi ac Ateb – dim cwestiynau.

9 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Cyflwynodd Iwan Williams adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd am y cyfnod Ebrill - Medi 2024.

Dywedodd IW wrth yr aelodau fod David Wilby wedi symud i swydd newydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Dymunwyd yn dda iddo gan bawb.

Nid oedd gan IW ragor o wybodaeth i'w rhannu ar wahân i gynnwys yr adroddiad a bod cydweithio cadarnhaol â'r Safle yn parhau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Cyfeiriodd y Cyng GOJ at y cyhoeddiad diweddar y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn lleihau eu gweithlu a holodd sut y bydd hyn yn effeithio ar waith yn y dyfodol. Nododd IW fod y cyfnod hwn yn ddi-os yn heriol ond na fydd gostyngiad yn elfennau rheoleiddiol y busnes.

10 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw gwestiynau pellach.

11. Unrhyw Fater Arall

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 2.55 pm

Dyddiad y cyfarfod nesaf – i'w gadarnhau.

Llofnod

Y Cyng Aled M Jones, Cadeirydd



Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 17.10.24

1. The Chair reported on the events he has attended since the last SSG meeting.
2. Stuart Law presented the Site Director's Report updating members on site developments since last SSG meeting.
3. Nuclear Restoration Services – NRS update – item forwarded to the next SSG meeting due to Bill Hamilton absence.
4. NDA Report – David Wallace the NDA representative for Wales and Scotland gave a verbal update on NDA issues.
5. The ONR report was previously circulated within the meeting papers pack.
6. Iwan Williams presented a joint NRW/EA update report.



Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group

Thursday 17 October 2024, NRS Wylfa Hub Office Cemaes Anglesey

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
Stuart Law	Site Director, NRS
David Wallace	NDA
Alistair Findlay	NDA
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Cllr Derek Owen	Isle of Anglesey CC / Llanbadrig Community Council
Llinos Medi	MP Ynys Môn
Cllr. Gary Pritchard	Leader IoACC
Cllr G O Jones	Councillor IoACC
Cllr Derek Owen	Councillor IoACC (Vice Chair)
Iwan Williams	NRW
TH Poole	CPRW
Steve Roberts	Site HSE Manager – Horizon Nuclear Power.
Cath Pritchard	SSG Secretariat NRS
Elin P. Jones	Comms and Socio Economics Lead NRS
Peter Williams	University of Liverpool

In attendance:

Bethan Gwyn	Translator - Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Mair Jones	Socio-Economics Lead NRS
Tanya McLeod	ONR
Cllr Dafydd Griffiths	Llaneilian CC
Cllr Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Cllr Gwilym Morris	Rhosybol CC
Cllr. Jackie Lewis	Councillor IoACC
Cllr JH Jones	Councillor Mechell Community Council
Cllr Liz Wood	Amlwch Town Council
Rhun ap Iorwerth	SM
Iwan Jones	Isle of Anglesey Council
Kate Simpson	Environment Agency
Bill Hamilton	NDA – Wales representative
Jonathan Holland	Lead REPIR, Emergency Planning NW Council

The Chair acknowledged Cllr. G O Jones reference to the recent passing of several retired and long-service members of staff. He kindly invited members to stand for a minute silence to express the SSG's condolences to their family and friends.

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting and noted the absences as recorded above.

He gave a particular welcome to Cllr Gary Pritchard as the new Leader for Isle of Anglesey Council. Cllr Pritchard thanked the Chair and Site Director for the site visit preceding this meeting. The Chair also thanked Stuart Law and Elin P Jones for arranging the visit.

AMJ wished David Wilby the previous NRW representative well in his new post with the Environment Agency.

The Chair also welcomed Llinos Medi to the meeting in her role as the newly elected Plaid Cymru MP for Ynys Môn.

2. Approval of Minutes of the Meeting held 11.04.24.

The minutes of the meeting held 11.04.24, circulated prior to the meeting, were received, and accepted as a true record. (Cllr. GOJ/Cllr.GW)

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised

4 SSG Chairman's Report

The Chair gave a brief update on the following:

- SSG Chairs/ Local Authority Meeting 8-9 July
- NDA Stakeholder Summit in Manchester 17-18 September

5 Wylfa Site Director's Report

SL presented the Site update report summarised as follows: -

The **10 year Strategy** outlining the future opportunities for all NRS sites has been launched with Trawsfynydd identified as the Lead and Learn site. The presentation referred to the Wylfa specific milestones for 2024/2025.

EHSS&Q statistics

SL reported on the safety statistics as follows:-

- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
- Days away case rate (DACR) 0.00
- Number of days since a lost time accident: 2311 days (as at 8 October 2024)

People

Wylfa One Team

- 195 NRS site staff
- 76 NRS based at the Wylfa Hub.
- Staff have recently completed the Annual Staff Survey

Apprentices

SL noted that the apprentice intake for September has been completed. Three apprentices have secured ongoing permanent employment on site.

A 4 year Strategic Workforce Plan is currently being developed.

Decommissioning programme

- A new and independent Electrical Overlay System is required that will meet modern standards, as well as being more appropriate for a deferral site. SL stated that the detail design had commenced and that preparations are underway to clear cable trays and the redundant switchboard. A new Earthing Design has been completed and awaiting report to be issued.
- On-Site Distribution Enabling Scope - Permanent Disconnection: All 18 tagged systems in tunnel 2RG1-4 have been disconnected from their switchboards. The remaining three systems will be de-cabled by the end of October. Cable Removal: About 14,000kg of cables have been removed and recycled.
- New supply to site - Legal easement and deed have been completed. The schedule for installing new ductwork along the approach road is being advanced.
- Reactor asbestos removal - this project supports the company strategy for reducing the asbestos hazard prior to entry into the deferral period.
- Turbine Hall (TH) Islanding – this project is to isolate the Turbine Hall and will include air gapping of services (both mechanically and electrically) into and out of the TH including the Ancillary Buildings within the proposed PC boundary area, which will then become the construction site.
- Dry Store Cell 4 skip removal, a first-of-its-kind project at Wylfa, aims to remediate legacy issues in the storage cell. A commercial strategy has been developed taking on board the new Public Procurement Regulations. The team is now focused on removing the East end charge chute onto the pile cap and has made steady progress with enabling activities.

Waste programme

- HAW/LAW processing facility - currently, there is no suitable location for the processing and packing of Higher and Lower Active Wastes (HAW/LAW) on site.
- ILW retrieval project – finished Phase 2 of the optioneering workshop.
- Waste Clearance facility – the Beyond Design Basis building ready for dismantling. Following the PAC a full planning application has been presented to the Local Authority.
- DCIC storage facility – Interim Storage Facility. An updated implementation schedule has been created, simplifying the commercial process.

Areas for Improvement

- High Legionella results – an enhanced flushing regime is in place and under constant review. SL noted that there are no immediate health issues on site.
- Plant degradation and equipment failures – degeneration and corrosion of some structures have been identified with a repair or removal prioritisation plan in place.
- ONR Enforcement notice – improvement for some systems required.

Good Practice

- Wildlife Trust's 30 Days Wild campaign was supported by the Site throughout June.

- Environmental Sampling Adjustments - the Environmental Sampling Team conducted all sampling at Wylfa Head on foot instead of using 4x4 vehicles. This change aims to minimize potential damage to the important ecological areas.
- Radiological Protection - the frequency of sampling seaweed in a Site of Special Scientific Interest (SSSI) was reduced. This adjustment helps to minimize damage and safeguard this sparse variety of seaweed.
- Beach clean - volunteers from Wylfa participated in a beach clean-up at Aberffraw beach on September 3rd.
- Environmental Awareness Display - a display outside the canteen featured a petition urging water companies to improve their sewage systems.
- Carbon footprint workshop - the session included an interactive component where participants calculated their own carbon footprints and discussed the results thus highlighting the importance of awareness in reducing carbon emissions.
- Compostable Waste Stream - has been added to each mess room. This initiative aims to reduce food waste sent to landfill, promoting more sustainable waste management practices.

STEM

SL reported that school visits to the Site have continued in collaboration with the Trawsfynydd site. The Engineering Manager and STEM lead has highlighted the importance of these visits in promoting the industry and helping young people make informed career choices.

Tyddyn Môn – the Wylfa Waste Projects team and Sites Executive Team volunteered at Tyddyn Môn, a local charity supporting adults with learning disabilities. Organised through the NRS Volunteering Programme and Neighbourly, the teams focused on re-sheeting a polytunnel for winter and enhancing a sensory music outdoor space.

Anglesey Show - secured a pitch during the show to promote career opportunities and development.

NRS Socio economic

- NRS socio-economic funding remains at £1.1m annually across the twelve sites, with £6,000 per site for good neighbour level.
- £1.02m committed to date, £132,000 of which is supporting projects in Wylfa's communities.
- An additional £360,000 NDA funding - £300,000 for continued support for the Morlais Marine Characterisation Research Project and £60,000 for MSParc Low Carbon Team (March-August 2024)

Holyhead Town Council received £1,000 to purchase NRS branded sustainable gazebos. Volunteers of diverse backgrounds welcome tourists from the cruise ships into Holyhead Port. 24,000 cruise passengers were welcomed in 2023, with more expected this year.

Rhosybol Community Council - received £1000 towards a Remembrance D-Day event commemorating the 80th Anniversary and held on Mynydd Parys and was very well attended.

The Chair invited members to present any questions.

Question and Answer Session

Cllr GP enquired as to whether any gaps in workforce were due to lack of funding or lack of skills. SL stated that this was dependent on the job in hand. For example, the removal of asbestos requires specific skills requiring additional funding. He also stated, however, that collaborative working with the Trawsfynydd site can result in sharing of skills and costs.

Cllr.GW enquired as to the total number of apprentices currently on site. SL confirmed that there are currently 4 which is fewer than previous years. He also noted, however, that the staff numbers are reduced which results in the reduction of work programmes and mentor support.

Cllr. DO – enquired about electricity supply backup. SL noted that the whole of Anglesey is supported by one transformer at this time and that his priority was to ensure security in situations of restrictions in supply.

The Chair thanked SL for his presentation and also thanked the Socio-Economic funding of the Commemorative event on Mynydd Parys which was a resounding success. He hoped for continued support from the NRS in another future commemorative event to be scheduled in 2025.

Llinos Medi MP thanked SL and his staff for ensuring the high standard of safety on the site for all.

6 NRS Corporate update

Mr Bill Hamilton had tendered his apologies, the 'Thinks Insight' presentation will be delivered at the next SSG meeting.

7. Nuclear Decommissioning Authority

David Wallace was welcomed to the meeting and summarised the report shared with the meeting papers as follows:

He introduced Alistair Findlay NDA Head of Regional Affairs to the group. Mr Findlay was appointed on 8.9.24.

- **General Election** – noted a change in Government with Labour Party now in power. DW also welcomed the new MP for Ynys Môn, Llinos Medi.
- **Engagement priorities for 2024**
 - A Stakeholder Conference was held on 17 and 18 of September in Manchester. Videos from the event will be available on the NDA webpage. It was announced that the NDA would be investing an extra £5m over the next five years to support

around 20 PhDs. This builds on the current annual spend of £45m in early careers, including apprenticeships, graduates, and PhDs.

- Cross Party working group is being established in Wales, working with the NIA, and reflecting the group already established in Scotland. It is envisaged that the first meeting will take place in November 2024 in the Senedd.
- Spending Review – the review result is yet to be received.
- A Cyber Security centre has been developed to identify and address any security breaches.
- Members were encouraged to view the links within the report for further details of developments.

Question and Answer session. – none received

The Chair thanked DW for his presentation.

8 Office for Nuclear Regulation Update

Tanya MacLeod had tendered her apologies. Members acknowledged receipt and content of her report previously circulated within the meeting papers pack.

Question and Answer session - none presented.

9 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update

A joint NRW/EA report for the period April 2024 – September 2024 was presented by Iwan Williams.

IW informed members that David Wilby has moved to a new post with the Environment Agency, he was wished well by all.

IW had no further information to share other than the content of the report and that positive collaborative working with the Site continues.

Question and Answer session.

Cllr GOJ referred to the recent announcement that National Resources Wales will be reducing their workforce and queried how this will affect future work. IW noted that these were undoubtedly challenging times but that there will be no reduction in the regulatory elements of the business.

10 Open Forum Question and Answer Session – no further questions were raised.

11. Any Other Business

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 2.55 pm

Dates Next Meeting – to be confirmed

Signed

Cllr Aled M Jones, Chair



NDA Update for Wylfa SSG

April 2025



Contents

1.0 NDA Stakeholder Update April 2025

**NDA Stakeholder Update**

Please find below a brief update on main points of interest since the last meeting.

Government Update

Following the reestablishment of Parliament in the Autumn the running of government the selection of representation for select committees has concluded alongside familiarisation visits for key Ministers and officials into their appointment areas.

Key appointments include local Sellafield MP Josh MacAlister, as Chair of the All Party Parliamentary Group for Nuclear with David Mundell, MP for the area covering Chapelcross, as Vice Chair. The Energy and Net Zero Committee (ESNZ) has also made appointments which include site MPs Josh MacAlister and Julie Minns and there are three MPs with NDA sites located in their constituencies sitting in the Public Accounts (PAC) and ESNZ.

David Peattie, along with Corhyn Parr and Euan Hutton, appeared before the ESNZ committee on the 18th December and answered questions on a wide variety of subjects connected to the NDAs mission. If you've not had a chance to watch the proceedings, the hearing is available to view online [here](#).

It has recently been announced that Seth Kybird will succeed Corhyn Parr as CEO of Nuclear Waste Services (NWS) following Corhyn's announcement last year of her intention to stand down. Seth is joining NWS on an 18-month secondment from Nuclear Transport Services (NTS), where he was CEO.

Spending Review

Jonathan Jenkin will give a verbal update on the Spending Review and NDA settlement.

Outreach activities

- On the 15th and 16th January, the UK decommissioning sector came together in Telford. On the 15th DECOM 25 took place with delegates from across the decommissioning sector discussing a whole range of topics, including the development of the UK sites and the opportunities for the supply chain, the skills needed to succeed, decommissioning in other sectors and the challenges of preparing for the future of decommissioning. On the 16th there was an NDA supply chain event, providing 1700 delegates the opportunity to connect with 300 exhibiting companies.



- On 5th March, we published our latest **stakeholder survey**. The findings will help shape our future strategy and plans.
- The latest **Cross Party Group (CPG)** took place in the **Scottish Parliament** with the main topic being 'Radioactive Waste - dealing with the legacy'. Topics including how waste was generated, how it is dealt with in Scotland, movement of waste located in Scotland and non-energy sources of radioactive waste. There were around 40 attendees both in person and via Teams.

Engagement priorities for 2025

- The NDA celebrates its 20th anniversary this year, and we are planning some events around this. We would like to mark an SSG meeting at each site with a special presentation reviewing the progress over the last 20 years – more details to follow.
